**PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD** STD-01-99(p.1)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau, 22 Gorffennaf 1999 |
| **Amser:** | 2pm-3.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | **GWEITHREDU'R PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD** |

***Diben***

1. Mae'r papur hwn yn disgrifio fframwaith ar gyfer gweithredu'r Pwyllgor Safonau yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

***Amseriad***

2. Wrth gyflawni busnes arferol.

***Camau Gweithredu***

3. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r argymhelliad ym mharagraff 8 ynghylch pa mor aml y dylid cynnal cyfarfodydd ac i gytuno arno.

***Rheolau Sefydlog***

4. Gweler cylch gwaith y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn Rheol Sefydlog 16.1. Ei bwrpas yw:

> (i) ymchwilio i unrhyw gyn y cyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio â rheol sefydlog 4 neu unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad yngln â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill yr Aelodau, yn adrodd ar y gyn honno ac, os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gyn, neu fod un o Ysgrifenyddion y Cynulliad heb gydymffurfio â gofynion paragraff 2.8;
>
> (ii) ymchwilio i unrhyw gyn a gyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad yngln â safonau ymddygiad yr Aelodau neu'r canllawiau i'r Ysgrifenyddion Cynulliad y bydd y Cynulliad wedi'u cymeradwyo yn unol â pharagraff 2.7, yn adrodd ar y gyn honno ac, os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gyn;

(iii) ystyried unrhyw fater o egwyddor yngln ag ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol;

(iv) goruchwylio'r trefniadau ar gyfer llunio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau, a ffurf a chynnwys y Gofrestr, a'r trefniadau ar gyfer cadw'r Gofrestr a sicrhau ei bod yn hygyrch; a

(v) cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar nifer y cwynion a wnaed i'r Llywydd o dan (i) a (ii) a'r camau a gymerwyd, ac ar ei gasgliadau

yngln â safonau moesegol wrth gynnal busnes y Cynulliad.

***Aelodaeth, Cyfarfodydd a Materion yn y Dyddiau Cynnar***

5. O dan y Rheolau Sefydlog, bydd y Cynulliad yn ethol Cadeirydd i gadeirio'r Pwyllgor. Etholir aelodau eraill cyn belled ag y bo'n ymarferol i adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad. Ni fydd y Llywydd yn aelod o'r Pwyllgor ond bydd ganddo neu ganddi'r hawl i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor neu i gyflwyno papurau iddo, er mwyn tynnu ei sylw at unrhyw ystyriaethau y cred sy'n briodol.

6. Cafodd Pwyllgor o 8 Aelod a Chadeirydd eu hethol ar 23 Mehefin.

7. Y materion dyddiau cynnar i'r Pwyllgor yw:

i. Penderfynu ar ei rôl.

ii. Cytuno ar ddulliau ymchwilio, a dod yn gyfarwydd â'r materion cymhleth sydd ynghlwm â'r ddarpariaeth ar sancsiynau troseddol yn adran 72(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

iii. Cytuno ar drefniadau casglu, cynnal a chyhoeddi cofrestr o fuddiannau aelodau.

iv. Ystyried penodiad a rôl cynghorydd y Cynulliad (rheol sefydlog 16.3) ac a oes angen ei gynghorydd ei hun arno (rheol sefydlog 8.14); a beth fyddai perthynas y naill a'r llall.

8. **Argymhellir** bod y Pwyllgor yn cwrdd bob chwarter ar ddyddiad i'w bennu ymlaen llaw gan y Pwyllgor ac ar adegau eraill, pan gyfyd yr angen.

***Ysgrifenyddiaeth***

9. Bydd Swyddfa’r Llywydd yn darparu cymorth clerigol i’r Pwyllgor, i ddechrau o’r Swyddfa Gyflwyno, ac yn ddiweddarach (o fis Medi ymlaen) o blith Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn delio o ddydd i ddydd â’r trefniadau gweinyddol ar gyfer prosesu cofrestriadau (a newidiadau i’r cofrestriadau) gan aelodau; eu cadw a’u casglu ynghyd yn Gofrestr; "cyhoeddi" y Gofrestr a sicrhau ei bod ar gael ar gyfer ei harchwilio. Bydd y trefniadau hyn yn cynnwys darparu "Cytundebau Cyflogaeth" (Rheol Sefydlog 4.10).

10. Yn unol â’r trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer pwyllgorau eraill y Cynulliad, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn dosbarthu papurau o leiaf 5 diwrnod gwaith ymlaen llaw, ac yn cynhyrchu cofnod o’r drafodaeth o leiaf 5 diwrnod gwaith ar ôl i’r cyfarfod gael ei gynnal. Cyhoeddir y dogfennau hyn ar y Fewnrwyd a’r Rhyngrwyd *os nad yw’r pwyllgor wedi penderfynu cwrdd yn breifat.*

**Swyddfa’r Llywydd**

**PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD** STD-01-99(p.1)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau, 22 Gorffennaf 1999 |
| **Amser:** | 2pm-3.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | **GWEITHREDU’R PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD** |

***Diben***

1. Mae’r papur hwn yn disgrifio fframwaith ar gyfer gweithredu’r Pwyllgor Safonau yn unol â’r Rheolau Sefydlog.

***Amseriad***

2. Wrth gyflawni busnes arferol.

***Camau Gweithredu***

3. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi’r argymhelliad ym mharagraff 8 ynghylch pa mor aml y dylid cynnal cyfarfodydd ac i gytuno arno.

***Rheolau Sefydlog***

4. Gweler cylch gwaith y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn Rheol Sefydlog 16.1. Ei bwrpas yw:

(i) ymchwilio i unrhyw gyn y cyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio â rheol sefydlog 4 neu unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad yngln â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill yr Aelodau, yn adrodd ar y gyn honno ac, os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gyn, neu fod un o Ysgrifenyddion y Cynulliad heb gydymffurfio â gofynion paragraff 2.8;

(ii) ymchwilio i unrhyw gyn a gyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad yngln â safonau ymddygiad yr Aelodau neu'r canllawiau i'r Ysgrifenyddion Cynulliad y bydd y Cynulliad wedi'u cymeradwyo yn unol â pharagraff 2.7, yn adrodd ar y gyn honno ac, os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gyn;

(iii) ystyried unrhyw fater o egwyddor yngln ag ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol;

(iv) goruchwylio'r trefniadau ar gyfer llunio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau, a ffurf a chynnwys y Gofrestr, a'r trefniadau ar gyfer cadw'r Gofrestr a sicrhau ei bod yn hygyrch; a

(v) cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar nifer y cwynion a wnaed i'r Llywydd o dan (i) a (ii) a'r camau a gymerwyd, ac ar ei gasgliadau

yngln â safonau moesegol wrth gynnal busnes y Cynulliad.

***Aelodaeth, Cyfarfodydd a Materion yn y Dyddiau Cynnar***

5. O dan y Rheolau Sefydlog, bydd y Cynulliad yn ethol Cadeirydd i gadeirio'r Pwyllgor. Etholir aelodau eraill cyn belled ag y bo'n ymarferol i adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad. Ni fydd y Llywydd yn aelod o'r Pwyllgor ond bydd ganddo neu ganddi'r hawl i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor neu i gyflwyno papurau iddo, er mwyn tynnu ei sylw at unrhyw ystyriaethau y cred sy'n briodol.

6. Cafodd Pwyllgor o 8 Aelod a Chadeirydd eu hethol ar 23 Mehefin.

7. Y materion dyddiau cynnar i'r Pwyllgor yw:

i. Penderfynu ar ei rôl.

ii. Cytuno ar ddulliau ymchwilio, a dod yn gyfarwydd â'r materion cymhleth sydd ynghlwm â'r ddarpariaeth ar sancsiynau troseddol yn adran 72(6) o Ddeddf

Llywodraeth Cymru 1998.

iii. Cytuno ar drefniadau casglu, cynnal a chyhoeddi cofrestr o fuddiannau aelodau.

iv. Ystyried penodiad a rôl cynghorydd y Cynulliad (rheol sefydlog 16.3) ac a oes angen ei gynghorydd ei hun arno (rheol sefydlog 8.14); a beth fyddai perthynas y naill a'r llall.

8. **Argymhellir** bod y Pwyllgor yn cwrdd bob chwarter ar ddyddiad i'w bennu ymlaen llaw gan y Pwyllgor ac ar adegau eraill, pan gyfyd yr angen.

***Ysgrifenyddiaeth***

9. Bydd Swyddfa'r Llywydd yn darparu cymorth clerigol i'r Pwyllgor, i ddechrau o'r Swyddfa Gyflwyno, ac yn ddiweddarach (o fis Medi ymlaen) o blith Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn delio o ddydd i ddydd â'r trefniadau gweinyddol ar gyfer prosesu cofrestriadau (a newidiadau i'r cofrestriadau) gan aelodau; eu cadw a'u casglu ynghyd yn Gofrestr; "cyhoeddi" y Gofrestr a sicrhau ei bod ar gael ar gyfer ei harchwilio. Bydd y trefniadau hyn yn cynnwys darparu "Cytundebau Cyflogaeth" (Rheol Sefydlog 4.10).

10. Yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer pwyllgorau eraill y Cynulliad, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn dosbarthu papurau o leiaf 5 diwrnod gwaith ymlaen llaw, ac yn cynhyrchu cofnod o'r drafodaeth o leiaf 5 diwrnod gwaith ar ôl i'r cyfarfod gael ei gynnal. Cyhoeddir y dogfennau hyn ar y Fewnrwyd a'r Rhyngrwyd *os nad yw'r pwyllgor wedi penderfynu cwrdd yn breifat.*

**Swyddfa'r Llywydd**